CYFARFOD

# Cyfarfod Grŵp Cynghorol Cymru ar Drethi: 5 Tachwedd 2018

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghorol Cymru ar Drethi ar 5 Tachwedd 2018.

Cyhoeddwyd gyntaf: 5 Ebrill 2019

Diweddarwyd ddiwethaf: 5 Ebrill 2019

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Yn bresennol**

**Croeso**

**Cyfarfod blaenorol**

**Yr economi yng Nghymru**

**Heriau i drethi Cymru yn y dyfodol**

**Unrhyw fater arall**

# Yn bresennol

## Grŵp Cynghorol ar Drethi

- Cadeirydd: Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
- Andrew Evans, Geldards LLP
- Ben Francis, Ffederasiwn y Busnesau Bach
- Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Leighton Jenkins, CBI Cymru, (yn dirprwyo ar gyfer Ian Price)
- David Phillips, Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
- Leighton Reed, yn cynrychioli ICAEW

## Eraill yn bresennol

- Jonathan Price, Prif Economegydd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Swyddogion yn bresennol

- Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru
- Georgina Haarhoff, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu
- Debra Carter, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
- Ruth Leggett, Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Strategol, Trysorlys Cymru
- Rod Hough, Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu
- Dyfed Alsop - Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru
- Becca Godfrey, Prif Swyddog Strategaeth, Awdurdod Cyllid Cymru

## Sylwedyddion

- Sarah Carter, Pennaeth Datblygu Trysorlys Cymru

## Ymddiheuriadau

- Y Cynghorydd Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
- Martin Mansfield, TUC
- Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Ian Price, CBI Cymru (Leighton Jenkins yn dirprwyo)
- Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan

# Croeso

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid bawb a oedd yn bresennol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

2. Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol (15 Mawrth 2018) wedi cael eu hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cadarnhaodd y grŵp fod y cofnodion yn grynodeb cywir o'r hyn a drafodwyd.

## Yr economi yng Nghymru a'r heriau i'r sylfaen drethu Gymreig yn y dyfodol

3. Agorwyd y cyfarfod gyda thrafodaeth am y cyhoeddiadau yng Nghyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, yn benodol y goblygiadau posibl ar gyfer trethi Cymru.
4. Rhoddodd Jonathan Price, Prif Economegydd Llywodraeth Cymru, gyflwyniad ar gyd-destun economaidd a chyllidol Cymru a'r DU, gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer y sylfaen drethu Gymreig yn y dyfodol, gan dynnu ar y gwaith a wnaed gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (**Y Sylfaen Drethu Gymreig: Risgiau a Chyfleoedd ar ôl Datganoli Cyllidol**). Trafododd y grŵp y prif dueddiadau a chasgliadau, gan ystyried y risgiau a'r cyfleoedd ehangach a allai ddod i Gymru yn eu sgil.
5. Ystyriodd y grŵp a fyddai set o ddangosyddion arweiniol ar gyfer y sylfaen drethu yn gallu helpu i nodi'r datblygiadau arwyddocaol a fyddai'n debygol o effeithio ar y refeniw dreth, y perfformiad economaidd, a blaenoriaethau eraill.

## Heriau i drethi Cymru yn y dyfodol

6. Wrth gyhoeddi cynllun gwaith y polisi trethi ar gyfer 2019, atgoffodd Georgina Haarhoff y grŵp o'r egwyddorion a'r dull gweithredu a nodwyd yn fframwaith y polisi trethi. Roedd hynny'n cynnwys edrych ar y set gyfan o'r pum treth a osodir neu a weinyddir yng Nghymru, ynghyd â syniadau newydd ar gyfer trethi, gan ystyried dulliau o weinyddu trethi, a'r gallu a'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â nhw.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

7. Pwysleisiodd yr aelodau bwysigrwydd cyfathrebu, er mwyn sicrhau bod trethdalwyr Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau, gan drafod yr ymgyrch ddiweddar ar y cyfryngau cymdeithasol. Ystyriwyd y cyfleoedd mwy tymor hir ar gyfer adolygu'r ystod o drethi sy'n ymwneud ag eiddo sydd wedi eu datganoli i Gymru.

## Unrhyw fater arall

8. Ni chodwyd unrhyw eitemau eraill o dan unrhyw fater arall.
9. Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i'r rai a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau, a chadarnhaodd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 11 Chwefror 2019.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Cyfarfod Grŵp Cynghorol Cymru ar Drethi: 5 Tachwedd 2018** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/cyfarfod-grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi-5-tachwedd-2018-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.